

Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Canllaw hwylus i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Papur briffio

Hydref 2021



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6296**
E-bost: **Osian.Bowyer@Senedd.Cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Gwefan: **ymchwil.senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Canllaw hwylus i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Papur briffio

Hydref 2021

Awduron:
Osian Bowyer



Cynnwys

| | |
|---|----------|
| 1. Trosolwg byr | 1 |
| 2. Cyflwyniad..... | 2 |
| 3. Darpariaethau allweddol yn y Ddeddf | 3 |
| Rhan 1 – Etholiadau | 3 |
| Rhan 2 – Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol | 4 |
| Rhan 3 – Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol | 5 |
| Rhan 4 – Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol..... | 7 |
| Rhan 5 – Cydweithio gan Brif Gyngorau..... | 8 |
| Rhan 6 – Perfformiad a Llywodraethiant Prif Gyngorau..... | 10 |
| Rhan 7 – Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd..... | 11 |
| Rhan 8 – Cyllid Llywodraeth Leol | 12 |
| Rhan 9 – Amrywiol | 13 |
| Rhan 10 – Cyffredinol..... | 14 |

1. Trosolwg byr

Cafodd **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** ('y Ddeddf') ei phasio gan Senedd Cymru ar 18 Tachwedd 2020. Cafodd y **Cydsyniad Brenhinol** ar 20 Ionawr 2021.

Diben datganedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Ddeddf fel y'i nodwyd yn ei **Memorandwm Esboniadol** yw:

- 'rhoi ffyrdd newydd i lywodraeth leol gefnogi a gwasanaethu eu cymunedau'; ac
- 'adfywio democratiaeth leol yng Nghymru'.

Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, perfformiad a llywodraethiant.

Darpariaeth allweddol yn y Ddeddf yw estyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau lleol i bobl ifanc 16 a 17 oed a dinasyddion tramor sy'n preswyllo yng Nghymru yn gyfreithlon. Mae'r newid hwn yn yr etholfraint yn adlewyrchu'r darpariaethau yn **Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020**, sy'n estyn hawliau pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd.

Mae'r Papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau allweddol yn y Ddeddf.

2. Cyflwyniad

Ar 18 Tachwedd 2019, cyflwynodd Llywodraeth flaenorol Cymru y **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)** ynghyd â **Memorandwm Esboniadol**. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol.

Wrth **gyflwyno'r Bil i'r Senedd**, dywedodd Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd y byddai'r Bil yn:

cyflwyno cyfres sylweddol o ddiwygiadau i'r ffordd y caiff etholiadau datganoledig eu cynnal ac i fframwaith llywodraethu llywodraeth leol.

Nod y Ddeddf yw diwygio a chryfhau atebolrwydd, perfformiad a thryloywder llywodraeth leol, ac mae'n gosod dyletswyddau newydd ar brif gynghorau i hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Hefyd, rhagwelir y bydd rhai o'r darpariaethau yn y Ddeddf yn **annog mwy o amrywiaeth** mewn llywodraeth leol.

Yn ogystal ag estyn yr etholfraint, mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi pob un o'r prif gynghorau unigol (hynny yw un o'r 22 cyngor sir neu fwrdeistref sirol) i benderfynu pa un o ddwy system bleidleisio - y cyntaf i'r felin neu bleidlais sengl drosglwyddadwy - i'w ddefnyddio ar gyfer etholiadau lleol.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau ychwanegol, sef **pŵer cymhwysedd cyffredinol**, i brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys. Mae'r pwerau'n galluogi cynghorau cymhwysol i 'weithredu er budd eu cymunedau' heb fod angen pennu pwerau deddfu penodol i ymgymryd â gweithgaredd penodol.

Mae pwerau newydd i Weinidogion Cymru hwyluso **mwy o gydweithredu** rhwng prif gynghorau. Y nod, yn ôl Llywodraeth Cymru, yw sicrhau 'systemau gweithio rhanbarthol mwy cyson a chlir'. Bydd mwy o gydweithio yn cael ei sbarduno gan gyd-bwyllgorau corfforedig rhanbarthol newydd.

3. Darpariaethau allweddol yn y Ddeddf

Rhan 1 – Etholiadau

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn cynnwys diwygiadau etholiadol llywodraeth leol sylweddol.

Mae'r Ddeddf yn **estyn yr hawl i bleidleisio** i bobl 16 a 17 oed a **dinasyddion tramor sy'n preswyllo yng Nghymru yn gyfreithlon** ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Mae hyn yn cyd-fynd â Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, a roddodd yr hawl i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiad y Senedd am y tro cyntaf ym mis Mai 2021.

Mae'r Rhan hon o'r Ddeddf yn caniatáu i gynghorau sir a bwrdeistrefol y dewis rhwng un o **ddwy system bleidleisio** ar gyfer etholiadau, ac mae hefyd yn newid y **cylch etholiadol** ar gyfer etholiadau llywodraeth leol o 4 i 5 mlynedd. Mae hefyd yn darparu ar gyfer system amgen i **gofrestru etholwyr llywodraeth leol**.

Mae Rhan 1 yn galluogi:

- Prif gynghorau i ddewis a ydynt am ddefnyddio'r dull cyntaf i'r felin (y system 'mwyafrif syml' a ddefnyddir ar hyn o bryd) neu'r bleidlais sengl drosglwyddadwy.
- Mae'r bleidlais sengl drosglwyddadwy yn fath o gynrychiolaeth gyfrannol, a ddefnyddir ar hyn o bryd yn etholiadau llywodraeth leol yr Alban ac ym mhob etholiad yng Ngogledd Iwerddon (heblaw am etholiadau San Steffan). Mae mwy o fanylion am y bleidlais sengl drosglwyddadwy ar [**wefan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol**](#).
- Er mwyn cyd-fynd â'r cylchoedd etholiadol presennol (San Steffan, y Senedd, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, er enghraifft), mae'r Ddeddf yn newid y cylch statudol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol o 4 i 5 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys etholiadau cyngor cymuned a thref. Disgwylir i'r etholiadau llywodraeth leol nesaf gael eu cynnal ym mis Mai 2022.
- Bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol bellach yn gallu ychwanegu unigolyn at y gofrestr etholiadol llywodraeth leol heb fod angen iddo wneud cais. Byddai angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn fodlon bod ganddo wybodaeth ddibynadwy bod unigolyn yn gymwys i gofrestru'n awtomatig.

Mae darpariaethau allweddol eraill yn Rhan 1 yn cynnwys newidiadau i feini prawf **cymhwyso** ac **anghymhwyso** ar gyfer unigolion sy'n sefyll etholiad:

- Mae cyflogeion a swyddogion cyngor, gan gynnwys athrawon, wedi'u hangymhwyso yn y gorffennol rhag sefyll etholiad yn ardal y cyngor lle y'i cyflogir. Er mwyn sefyll etholiad, byddai angen iddynt ymddiswyddo o'u cyflogaeth â thâl.

Mae'r Ddeddf yn newid y rheolau i ganiatáu i gyflogeion cyngor (heblaw am y rhai sydd mewn swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol) sefyll etholiad. Ni fyddai angen iddynt ymddiswyddo o'u cyflogaeth â thâl gyda'r cyngor i wneud hyn.

- Mae'r Ddeddf hefyd yn diweddarau'r darpariaethau anghymhwyso yng Nghymru. Mae unrhyw un sy'n ddarostyngedig i ofynion hysbysu Deddf Troseddau Rhywiol 2003, neu orchymyn o dani, wedi'i wahardd rhag sefyll etholiadau lleol neu ddal swydd etholedig. Mae'r un peth yn wir os yw wedi'i ethol yn aelod o brif gyngor neu gyngor cymuned neu dref yng Nghymru.

Rhan 2 – Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Mae Rhan 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n sefydlu **pŵer cymhwysedd cyffredinol** i lywodraeth leol.

Mae Pennod 1 o Ran 2 o'r Ddeddf yn nodi ffiniau'r pŵer cyffredinol i awdurdodau cymhwysol (prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys). Mae hyn yn cynnwys terfynau ariannol a defnyddio'r pŵer at ddibenion masnachol.

Beth mae'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn ei olygu i awdurdodau lleol cymwys?

- Rhoddwyd pwerau a dyletswyddau i lywodraeth leol dros gyfnod o amser ac, o'r herwydd, nid ydynt wedi'u pennu mewn unrhyw un darn o ddeddfwriaeth. Mae swyddogaethau llywodraeth leol, felly, wedi'u cyfyngu gan ddeddfwriaeth.
- Bydd yn golygu na fydd yn ofynnol i awdurdodau cymwys (h.y. y 22 prif gyngor a chynghorau cymuned cymwys) bennu pŵer penodol mwyach er mwyn ymgymryd â gweithgaredd penodol. Yn lle hynny, byddant mewn sefyllfa lle y "rhagdybir bod modd iddynt wneud rhywbeth oni bai bod cyfyngiad statudol yn atal hynny".

Mae Pennod 2 o Ran 2 y Ddeddf yn nodi'r amodau y mae'n rhaid i gyngor cymuned eu bodloni, ynghyd â'r weithdrefn y mae'n rhaid iddynt ei dilyn, er mwyn dod yn **gyngor cymuned cymwys**.

Bydd y darpariaethau yn y Bennod hon, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn sicrhau bod cynghorau cymuned “yn gallu ymdopi â'r heriau presennol yn ogystal â heriau'r dyfodol”.

Fodd bynnag, er mwyn i gyngor cymuned ddod yn gymwys i arfer pŵer cymhwysedd cyffredinol, bydd angen:

- o leiaf ddau draean o aelodau'r cyngor cymuned wedi'u hethol;
- bod clerics y cyngor yn dal cymwysterau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau;
- bod y cyngor hefyd wedi cael barn 'ddiamod' am gyfrifon diweddaraf y cyngor, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, hefyd am y cyfrifon a oedd yn eu rhagflaenu'n union.

Dim ond ar ôl bodloni'r meini prawf uchod y caiff cyngor cymuned basio penderfyniad ei fod yn gyngor cymwys.

Gan fod y Ddeddf hon yn diddymu'r pwerau llesiant yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 yn llawn, ni chaiff cynghorau cymuned nad ydynt wedi penderfynu eu bod yn gymwys ar gyfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol arfer y naill bŵer na'r llall.

Bydd cynghorau cymuned yn dal i gael defnyddio'r cwmpas llawn a ddarperir gan **adran 137(1) o Ddeddf 1972** i fynd i wariant at ddibenion penodol nad yw wedi'i awdurdodi fel arall, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad ariannol presennol.

Rhan 3 – Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol

Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i **hyrwyddo** ac **annog** cymryd rhan ym mhenderfyniadau'r cyngor. Mae'n gwneud hyn drwy osod gofynion ar bob prif gyngor i lunio a chyhoeddi a **strategaeth cyfranogiad y cyhoedd**. Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y cyngor yn cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd.

Mae'n rhaid i'r strategaeth ymdrin â'r canlynol:

- sut y mae'r cyngor yn bwriadu hyrwyddo ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau i'w breswylwyr;
- sut y bydd yn hwyluso prosesau i bobl leol wneud sylwadau;
- sut y bydd y cyngor yn codi ymwybyddiaeth ar sut i ddod yn aelod o'r cyngor.

Ymhlith y darpariaethau eraill sy'n ceisio hyrwyddo cyfranogiad y mae:

- sefydlu **cynllun deiseb** a phrosesau i ymateb i ddeiseb;
- dyletswydd i gyhoeddi **cyfeiriadau swyddogol** (electronig a phost) i aelodau'r cyngor.

Nod y ddyletswydd olaf yw sicrhau bod aelodau etholedig yn hygyrch i'r cyhoedd, wrth ddiogelu preifatrwydd cyfeiriadau cartref aelodau unigol. Fodd bynnag, caiff aelodau etholedig ddewis parhau i ddefnyddio eu cyfeiriad cartref fel eu cyfeiriad swyddogol.

Mae'r Ddeddf yn gwneud sawl newid **i gyfarfodydd llywodraeth leol** er mwyn ei gwneud yn fwy agored a hygyrch i'r cyhoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai pobl allu gwyllo a chyrchu cyfarfodydd cyngor ar unrhyw adeg, p'un a yw hwn yn gyfarfodydd cyngor llawn, cyfarfodydd pwyllgorau neu is-bwyllgorau er enghraifft.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor ddarlledu cyfarfodydd cyngor sy'n agored i'r cyhoedd, a sicrhau bod y rhain ar gael am gyfnod penodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi cyfarfodydd llywodraeth leol eraill i gael eu darlledu, megis cyfarfodydd awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol. Nid yw'r ddyletswydd i ddarlledu cyfarfodydd yn estyn i gynghorau cymuned a thref.

Mae newidiadau hefyd i'r trefniadau ar gyfer **presenoldeb aelodau etholedig** mewn cyfarfodydd awdurdod lleol. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn gymwys i gynghorau cymuned a thref, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parc Cenedlaethol ac awdurdodau iechyd porthladd yng Nghymru.

Nod gwreiddiol y ddarpariaeth yn y Bil oedd ei gwneud yn haws i'r Aelodau fod n bresennol mewn cyfarfodydd o bell. Byddai awdurdodau lleol wedi cael y rhyddid i bennu'r amodau ar gyfer gweithredu presenoldeb o bell yn eu rheolau sefydlog. Diwygiwyd y darpariaethau hyn yn sylweddol yng Nghyfnod 3 o hynt y Bil drwy'r Senedd. Roedd yn adlewyrchu'r newid cyflym i weithio'n rhithwir a newidiadau gweithdrefnol dilynol ar gyfer cynnal busnes llywodraeth leol o ganlyniad i'r pandemig. Gan wneud y cynnig yn y Senedd, mae'r **nododd y cyn-Weinidog Tai a Llywodraeth Leol y canlynol** (10 Tachwedd 2020):

Mewn ymateb i'r pandemig, fe wnaethom ni reoliadau brys ym mis Ebrill er mwyn caniatáu i gyrff llywodraeth leol gyfarfod o bell... Ni fyddai'r cyrff hyn wedi gallu cyfarfod yn gyfreithlon ac yn ddiogel, na pharhau â'u busnes yn ystod y pandemig, heb yr ymyriad hwn. Cafodd

y rheoliadau hyn eu croesawu'n wresog gan randdeiliaid, ac maen nhw wedi arwain at fuddion eraill. Mae cyrff llywodraeth leol wedi gallu gweithio'n fwy hyblyg ac effeithlon ac mae prosesau gwneud penderfyniadau wedi bod ar gael i gynulleidfa lawer ehangach.

Mae rhai darpariaethau penodol ar gyfer cynghorau cymuned yn y Rhan hon hefyd er mwyn gwella cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod y cyhoedd sy'n bresennol yn cael cyfle rhesymol i wneud sylwadau ar fusnes y cyngor ar y dydd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi adroddiadau blynyddol am **flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor** yn ystod y flwyddyn.

Rhan 4 – Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol

Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau amrywiol i'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch rolau a swyddogaethau swyddogion ac aelodau etholedig.

Mae'n galluogi gweithrediaeth (Cabinet) prif gyngor i benodi aelodau fel **cynorthwyr** i'r weithrediaeth ac yn hwyluso **rhannu swydd** i arweinwyr gweithredol ac aelodau gweithredol. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i hwyluso rhannu swydd ar gyfer swyddi penodol brif gyngor. Mae hyn yn cynnwys cadeirydd neu aelod llywyddol prif gyngor a chadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau.

Mae'r rhan hon o'r Ddeddf hefyd yn gwneud newidiadau i hawl aelodau prif gynghorau i **absenoldeb teuluol**, gan eu cysoni â chyfraith cyflogaeth y DU wedi'i diweddarau.

Gosodir dyletswyddau newydd ar **arweinwyr grwpiau gwleidyddol** i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o'u grŵp. Yn unol â hyn, mae gan bwyllgorau safonau'r prif gyngor swyddogaethau newydd i fonitro cydymffurfedd grwpiau gwleidyddol a chynnig cyngor a hyfforddiant i arweinwyr ar faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau newydd.

Un o nodau allweddol y darpariaethau yn Rhan 4 yw hyrwyddo a chynyddu amrywiaeth cynrychiolaeth mewn gweithrediaethau cyngor a swyddi penodol. Nod rôl **cynorthwydd i'r weithrediaeth**, er enghraifft, yw rhoi cyfleoedd i aelodau llai profiadol, neu'r rhai na allant ymrwymo amser i uwch-rôl, gael profiad gwerthfawr. Ni fydd cynorthwyr yn cael eu talu nac yn cael pleidleisio ar benderfyniadau a wneir gan y weithrediaeth.

Yn yr un modd, nod **rhannu swydd** ar gyfer swyddi penodol mewn prif gyngor yw rhoi cyfleoedd i aelodau ymgymryd â rolau proffil uwch na fyddant, fel arall, yn gallu eu gwneud. Mae darpariaethau yn y Ddeddf yn caniatáu mynd y tu hwnt i uchafswm maint presennol y weithrediaeth (10) er enghraifft, hyd at 13, lle y mae hynny'n cael ei achosi gan benodiadau ar sail rhannu swydd.

Cyflwynodd **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011** system o **absenoldeb teuluol** ar gyfer aelodau o brif gynghorau yng Nghymru. Roedd hyn yn debyg i'r hawliau a oedd ar gael i swyddogion cyngor. Nod y newid yn 2011 oedd dileu rhai o'r rhwystrau i'r rhai sydd â chyfrifoldebau teuluol sydd am sefyll etholiad. Hefyd, galluogodd aelodau etholedig i fod yn absennol o gyfarfodydd y cyngor yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol. Mae rhai trefniadau statudol ar gyfer absenoldeb am resymau teuluol wedi datblygu ers 2011, ac mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn eu cysoni â chyfraith bresennol y DU.

Mae darpariaethau eraill yn yr adran hon yn cynnwys:

- pwerau i'w gwneud yn ofynnol i brif gynghorau sefydlu cyd-bwyllgorau craffu pan ddarperir gwasanaethau ar draws ardaloedd cyngor;
- gofyniad ar gynghorau cymuned i lunio a chyhoeddi cynllun hyfforddi i gynghorwyr cymuned a'u staff;
- dyletswydd ar bwyllograu safonau i lunio adroddiad blynyddol yn nodi sut y mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol;
- gofynion ar brif gynghorau i benodi prif weithredwr (yn hytrach na dynodi pennaeth gwasanaeth taledig), ac am dalu prif weithredwyr; a
- diwygiadau i **Ddeddf Llywodraeth Leol 2000** i wneud darpariaeth ynghylch ymchwiliadau gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** i ymddygiad aelodau llywodraeth leol.

Rhan 5 – Cydweithio gan Brif Gyngorau

Mae awdurdodau lleol, ers blynyddoedd lawer, wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd a chyda phartneriaid amrywiol, gan greu partneriaethau lleol a rhanbarthol. Mae gan nifer o bartneriaethau sail statudol, tra bo eraill yn gymysgedd o bartneriaethau ffurfiol ac anffurfiol rhwng asiantaethau. Serch hynny, mae'r dirwedd partneriaethau wedi dod yn fwyfwy cymhleth, a cheisiodd Llywodraeth Cymru, drwy'r Ddeddf hon, **sefydlu fframwaith** a fydd yn:

cefnogi ac yn annog gweithio a chydweithio rhanbarthol drwy ddull mwy cydlynus, cyson a syml a reolir yn ddemocrataidd.

Mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn sefydlu fframwaith ar gyfer **mw y o weithio rhanbarthol** rhwng prif gynghorau. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i **Gyd-bwyllgorau Corfforedig** gael eu sefydlu drwy ddau lwybr:

- ar gymhelliad dau neu ragor o brif gynghorau (Rheoliadau cyd-bwyllgor y gwnaed cais amdanynt); ac
- ar gymhelliad Gweinidogion Cymru (Rheoliadau cyd-bwyllgor pan na fo cais wedi ei wneud).

Gall Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyflogi staff yn uniongyrchol, dal asedau a rheoli cyllid.

Gall Gweinidogion Cymru ond pennu rhai swyddogaethau penodol sydd i'w harfer gan gyd-bwyllgorau corfforedig lle na wnaethpwyd cais sefydlu, sef:

- gwella addysg;
- cynllunio trafndiaeth strategol;
- swyddogaeth llunio cynllun datblygu strategol;
- y swyddogaeth llesiant economaidd.

Caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig y rhoddir y swyddogaeth llesiant economaidd iddo wneud unrhyw beth sydd, yn ei farn ef, yn debygol o hyrwyddo neu wella llesiant economaidd ei ardal. Hefyd, caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ofyn bod rheoliadau yn cael eu gwneud sy'n ychwanegu swyddogaethau at Gydbwyllgor Corfforedig neu'n eu dileu ohono, ond dim ond mewn meysydd a bennir yn y Ddeddf.

Ym mis Chwefror 2021, **gosododd Gweinidogion Cymru reoliadau yn cymell sefydlu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig** yng Nghymru:

- **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd;**
- **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth;**
- **Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin;**
- **Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain.**

Bydd y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gallu arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â gwaith cynllunio datblygu strategol, gwaith cynllunio trafndiaeth rhanbarthol a hyrwyddo llesiant economaidd eu hardal. Nid yw gwella addysg wedi'i bennu yn y Rheoliadau fel swyddogaeth i'w harfer gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae darpariaethau eraill yn y Rhan hon o'r Ddeddf yn ymwneud â'r broses o

ddiwygio, addasu a dirymu rheoliadau neu ddeddfwriaeth bresennol a gwneud canllawiau ynghylch cydweithio. Mae hyn er mwyn cyflawni bwriad y polisi, sef symleiddio trefniadau rhanbarthol.

Rhan 6 – Perfformiad a Llywodraethiant Prif Gyngorau

Cyn pasio Deddf 2021, cafodd rhaglen wella prif gyngorau ei sbarduno gan **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009**. Nododd **Memorandwm Esboniadol** Llywodraeth Cymru fod y drefn wella yn ‘un sy’n canolbwyntio ar brosesau’, gan ganolbwyntio ar ‘weithgarwch neu allbynnau y gellir eu mesur yn rhwydd’.

Mae Pennod 1 yn Rhan 6 o’r Ddeddf yn darparu ar gyfer **trefn wella well** ar gyfer prif gyngorau. Mae’n **ceisio** ‘cyflwyno mwy o reoleidd-dra i’r system perfformiad a llywodraethu, sy’n rhoi’r cyfrifoldeb ar y prif gyngor i gymryd perchnogaeth o’i welliant ei hun’.

Mae bellach yn ofynnol i bob prif gyngor gynnal adolygiad blynyddol o’r graddau y mae’n arfer ei swyddogaethau’n effeithiol, ac a yw’n defnyddio ei adnoddau’n effeithlon. Mae’n rhaid i adroddiad ar berfformiad y cyngor gael ei gyhoeddi a’i anfon at Weinidogion Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (ESTYN).

Fel rhan o’r broses adolygu, mae’n ofynnol i bob prif gyngor ymgynghori â phreswylwyr, busnesau a staff y cyngor ynghylch ei berfformiad, ac i wneud trefniadau ar gyfer sefydlu **panel allanol**, a benodir gan y cyngor, i asesu ei berfformiad. Mae’n rhaid cynnal asesiad perfformiad gan banel o **leiaf unwaith** rhwng dau etholiad cyngor lleol cyffredin olynol.

Mae pŵer ychwanegol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad arbennig os nad yw cyngor yn bodloni’r gofynion perfformiad. Mae’n rhaid i’r Archwilydd adrodd ar ganlyniadau arolygiad arbennig, a chynnwys argymhellion i’r cyngor neu Weinidogion Cymru weithredu.

Mae darpariaethau hefyd yn y Bennod hon sy’n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cefnogaeth a chymorth i brif gyngorau os nad ydynt yn **bodloni eu gofynion perfformiad**. Caiff Gweinidogion Cymru **gyfarwyddo** prif gyngor i ddarparu cefnogaeth a chymorth i brif gyngor arall. Gall hyn gynnwys darparu staff, nwyddau a gwasanaethau.

Mae Pennod 2 yn diwygio’r darpariaethau presennol ym **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011** ynghylch aelodaeth y pwyllgorau llywodraethu ac archwilio newydd

eu henwi. Mae gan y pwyllgorau hyn rôl bwysig wrth graffu ar faterion ariannol a llywodraethu corfforaethol cynghorau. Mae'n rhaid iddynt fod yn annibynnol ar Weithrediaeth y cyngor ac o dan Mesur 2011, mae'n ofynnol iddynt gynnwys o **leiaf un 'aelod lleyg'**. Mae aelod lleyg yn aelod annibynnol â chymhwyster ariannol nad yw'n swyddog nac yn aelod o brif gyngor.

Mae Deddf 2021 yn ei gwneud yn orfodol i'r prif gyngor sicrhau bod **traean o aelodau'r** pwyllgorau llywodraethu ac archwilio yn aelodau lleyg. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar y pwyllgor i benodi person lleyg yn Gadeirydd arno, ac yn gofyn nad yw'r Dirprwy Gadeirydd yn aelod o'r Weithrediaeth nac yn gynorthwydd iddi.

Mae'r Bennod olaf yn Rhan 6 yn ceisio sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol (ESTYN ac Arolygiaeth Gofal Cymru) yn cydgysylltu eu swyddogaethau perthnasol. Y nod, yn ôl y **Memorandwm Esboniadol**, yw 'hyrwyddo gwaith effeithiol rhwng rheoleiddwyr perthnasol er mwyn lleihau cymaint â phosibl y baich ar lywodraeth leol'.

Rhan 7 – Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd

Mae Rhan 7 o'r Ddeddf yn galluogi dau neu ragor o brif gynghorau i wneud cais i Weinidogion Cymru i **uno'n wirfoddol**. Roedd angen y darpariaethau newydd gan fod cyfyngiad amser ar y pwerau presennol yn **Neddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015** ac nad oedd modd eu defnyddio mwyach.

Dim ond cyngor llawn pob prif gyngor dan sylw gaiff wneud y penderfyniad i wneud cais i uno'n wirfoddol. Hefyd, mae'n ofynnol ymgynghori â thrigolion a rhanddeiliaid allweddol cyn gwneud cais i uno.

Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn diddymu'r prif gynghorau a enwir yn y cais, a chreu ardal cyngor newydd. Hefyd, bydd angen i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer cyngor cysgodol, a fydd yn gwneud penderfyniadau pwysig cyn i'r cyngor unedig newydd ddod i fodolaeth. Mae hyn yn cynnwys gosod y gyllideb a'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn gyntaf a goruchwyllo penodiad yr uwch dîm rheoli. Bydd penderfyniadau o'r fath yn caniatáu i'r cyngor newydd weithredu'n effeithiol ac yn gyfreithlon o'r diwrnod cyntaf.

Mae darpariaethau hefyd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud **rheoliadau ailstrwythuro** i uno dau neu ragor o brif gynghorau lle nad oes partneriaid. Ar hyn o bryd, **ni chaiff** prif gyngor sy'n wynebu anawsterau difrifol **wneud cais** i

Weinidogion Cymru i ganiatáu iddo uno ag un neu ragor o'i gymdogion.

Mae'n rhaid bodloni nifer o amodau a nodir yn adran 129 o'r Ddeddf cyn y gellir gwneud rheoliadau ailstrwythuro. Mae'r rhain yn cynnwys:

- adroddiad ar arolygiad arbennig o brif gyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu gais diddymu gan brif gyngor;
- bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad i'r cynghorau yr effeithir arnynt eu bod wedi cael yr adroddiad neu'r cais diddymu, ac wedi cyhoeddi'r hysbysiad;
- bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â chynghorau y mae unrhyw ailstrwythuro yn effeithio arnynt;
- bod Gweinidogion Cymru yn fodlon, heb reoliadau ailstrwythuro, nad yw'n debygol y bydd Llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn cael ei sicrhau.

Rhan 8 – Cyllid Llywodraeth Leol

Mae Rhan 8 o'r Ddeddf yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch ardrethi annomestig, a elwir hefyd yn ardrethi busnes, a'r dreth gyngor.

Mae pwerau newydd i brif gynghorau ymdrin ag osgoi trethi gan berchnogion busnes. Mae hyn yn cynnwys pŵer i **gyflwyno hysbysiad**, sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r eiddo lle y mae'r busnes yn cael ei gynnal. Caiff y cyngor ofyn am wybodaeth gan drydydd partion, megis cwmnïau cyfleustodau, er mwyn pennu'r talwr ardrethi cywir. Mae gan awdurdodau bilio bwerau newydd hefyd i fynd i mewn i eiddo a'u harchwilio, yn debyg i'r rhai sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Swyddogion Priso. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y darpariaethau yn y Ddeddf yn 'helpu i wella cywirdeb biliau ardrethi annomestig ac yn lleihau'r potensial am dwyll ac osgoi talu'.

Mae'r Ddeddf yn diwygio'r mesur chwyddiant sy'n gymwys i gyfrifiadau'r lluosydd ardrethi annomestig o RPI (Mynegai Prisiau Manwerthu) i CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) yn barhaol. Y lluosydd yw'r system a ddefnyddir i gyfrifo faint y mae angen i eiddo ardrethol (busnes) ei dalu bob blwyddyn mewn ardrethi busnes i'r awdurdod lleol. Mae CPI wedi'i ddefnyddio i uwchraddio'r lluosydd yng Nghymru ers 2018, gan atgynhyrchu newid a ddigwyddodd yn Lloegr ar yr un pryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi **gwneud Gorchmynion** yn flynyddol (ar wahân i 2020 pan gafodd ei rewi oherwydd y pandemig) sy'n diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Mae'r Ddeddf hefyd yn dileu pŵer i a oedd yn galluogi carcharu fel cosb am beidio â thalu'r dreth gyngor. Yn flaenorol, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud diwygiadau i reoliadau i ddileu'r pŵer hwn i awdurdodau lleol, gan **ystyried** ei fod yn 'ymateb anghymesur, sydd wedi dyddio, i fater o ddyled sifil'. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol newydd nawr i ail-osod y pŵer i garcharu.

Rhan 9 – Amrywiol

Mae Rhan 9 o'r Ddeddf yn gwneud ystod o **ddarpariaethau gyda'r nod** o 'gryfhau a moderneiddio'r modd y mae llywodraeth leol yn gweithredu'.

Mae'r darpariaethau allweddol yn cynnwys:

- diwygio darpariaethau **rhannu gwybodaeth** sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng aelodau o'r grŵp rhannu gwybodaeth (Archwilydd Cyffredinol Cymru, Estyn a Gweinidogion Cymru).ar gyfer rheoleiddwyr mewn perthynas â phrif gyngor. Mae hyn hefyd yn ymestyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o'r Ddeddf hon;
- amddiffyniad statudol i **benaethiaid gwasanaethau democrataidd**, i hyrwyddo'r rôl i brif swyddog a dileu'r cyfyngiad cyfredol sy'n atal awdurdod lleol rhag dynodi ei swyddog monitro yn bennaeth ei wasanaethau democrataidd;
- diddymu pleidleisiau cymunedol;
- pwerau i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol;
- dileu'r gofyniad am **ymchwiliad lleol** i ddiwygiadau arfaethedig i orchmynion cyfunol awdurdodau tân ac achub;
- darpariaethau sy'n ymwneud â pherfformiad a llywodraethu awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol;
- darpariaeth sy'n galluogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi uno i ddaduno.

Rhan 10 – Cyffredinol

Mae Rhan 10 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch y canlynol:

- dehongli
- cyfarwyddydau a roddir a rheoliadau a gorchmynion a wneir o dan y Ddeddf;
- pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc. mewn rheoliadau;
- pa bryd y daw'r Ddeddf i rym;
- enw byr y Ddeddf.